



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Cronfa - Swansea University Open Access Repository

This is an author produced version of a paper published in:

CREITHIAU

Cronfa URL for this paper:

<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa40537>

Book chapter :

Eirug, A. (2016). *Rhaff ac iddi amryw geinciau: Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr yng Nghymru*. CREITHIAU, (pp. 141-162). Cardiff: University of Wales Press.

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence. Copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder.

Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>

*'Rhaff ac iddi amryw geinciau':
Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr
yng Nghymru*

Aled Eirug

Ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf, credai'r Cymry Anghydfurfiol eu bod yn genedl heddychlon mewn gwlad radicalaidd. Er gwaethaf yr wrogaeth a delid i draddodiad heddwch Samuel Roberts, Llanbrynmair a'r 'Apostol Heddwch', Henry Richard, ac er gwaethaf penderfyniadau lu enwadau crefyddol i wrthwynebu pob rhyfel, cefnwyd ar y myth hwnnw yn gyflym iawn ym mis Awst 1914. Ymunodd y mwyafrif o gapeli ac eglwysi i annog dynion ifainc i ymrestru yn y fyddin. Er gwaethaf penderfyniad Undeb yr Annibynwyr yn 1913 fod rhyfel yn groes i ysbryd Crist, o fewn dwy flynedd gallai'r Undeb lawenhau fod digonedd o ddynion yn cael eu recriwtio i'r fyddin.¹ Tanseiliwyd yn llwyr y dybiaeth mai gwlad heddychol a gwrth-filwrol oedd Cymru yn 1914.

Lleiafrif cymharol fach a distadl oedd y gwrthwynebwyr ar ddechrau'r rhyfel, ond wrth i'r gwrthwynebiad gynyddu o Ionawr 1916, yn sgil cyflwyno gorfodaeth filwrol, datblygodd de Cymru yn enwedig yn un o'r prif ffynonellau gwrth-filitariaeth ym Mhrydain.

Ar ddechrau'r rhyfel, arweinid y gwrthwynebiad i'r rhyfel yn bennaf gan y Blaid Lafur Annibynnol (yr ILP), a anghytunodd â pholisi swyddogol y Blaid Lafur o gefnogi'r rhyfel. Keir Hardie, Ramsay MacDonald a Philip Snowden oedd y proffwydi yn pregethu yn y diffeithiwch. Yng Nghymru, roedd dylanwad yr ILP gryfaf yn eu cadarnleoedd yn y de diwydiannol. Yr ILP oedd pwerdy'r Blaid Lafur ar y pryd, yn trefnu propaganda, yn datblygu'r cyngresau llafur lleol, lle byddai undebau llafur yn dod ynghyd, ac yn cynnal beichiau aelodau etholedig o'r Blaid Lafur.²

Adlewyrchid y gwrthwynebiad i'r rhyfel gan ddau bapur newydd

sosialaidd a Llafurol, sef *Y Dinesydd Cymreig*, a gyhoeddid yng Nghaernarfon, a'r *Merthyr Pioneer*, a berchnogid gan yr ILP. Papur newydd arall annibynnol ei naws a arddelai agwedd olygyddol yn erbyn y rhyfel oedd *Y Darian*, a gyhoeddwyd yn Aberdâr.³ Er i'r golygydd, y Parchedig J. Tywi Jones, roi rhwydd hynt i gefnogwyr y rhyfel, tebyg i Beriah Gwynfe Evans, gyhoeddi erthyglau cyson yn *Y Darian*, cyhoeddai hefyd erthyglau o blaid gwrthwynebwyr cydwybodol, a llwyddai i gorddi yn ffyrnig yn erbyn y rhyfel. Honnai Tywi Jones mai'r *Darian* oedd 'yr unig bapur yng Nghymru a barhaodd i ddweud y gwir am bethau yn ystod y rhyfel fawr, ac oherwydd hynny y bu rhai o weithwyr Aberdâr yn bygwth "smasho'r" swyddfa'.⁴ Felly nid oedd y sefyllfa'n hawdd i'r rheiny a fentrodd fynegi barn annibynnol, a oedd yn groes i'r bloeddiau rhyfelgar, hyd yn oed yn y de diwydiannol.

Gellid rhannu'r gwrthwynebiad i'r rhyfel yn ddwy ran yn bennaf, sef y gwrthwynebiad ar sail grefyddol a Christnogol, ac ar sail wleidyddol a sosialaidd. O ran mynegiad crefyddol, y Crynwyr oedd yr unig enwad a wrthwynebai'r rhyfel yn bendant, gan fod gwrthod cefnogi rhyfel yn un o 'ganonau sefydlog a sylfaenol eu Cristionogaeth hwy'.⁵ Ond bychan iawn oedd eu dylanwad yng Nghymru, gyda'u cefnogaeth yn fach ac yn bennaf yn sir Faesyfed, Abertawe, Caerdydd ac arfordir y gogledd.⁶

Ar y cyfan tueddai'r enwadau crefyddol Anghydfurfiol Cymreig i dderbyn bod hwn yn rhyfel cyfiawn, yn yr un modd â'r Eglwys sefydledig. Fodd bynnag, cafwyd nifer o eithriadau, a'r ffigwr mwyaf allweddol yn y mudiad yn erbyn y rhyfel ar sail grefyddol o'r cychwyn cyntaf oedd Thomas Rees, prifathro Coleg Diwinyddol Bala-Bangor. Fe'i hystyrid nid yn unig yn ysgolhaig sylweddol, sosialydd a chenedlaetholwr, ond hefyd yn heddychwyr digymrodedd.⁷

Cythraddodd Rees lawer pan gyhoeddodd lythyr yn *Y Tyst* ar 30 Medi 1914, ynghanol cyfnod recriwtio mwyaf toreithiog y rhyfel, a oedd yn gwbl ddamniol o weithgarwch y crefyddwyr hynny a gefnogai'r ymgyrch ryfel, a'r gwleidyddion hynny a anogai ddynion i ymuno â'r fyddin. Gofynnodd i'w ddarllenwyr roi'r gorau i obeithio mai rhyfel i roi terfyn ar ryfel oedd hwn, ac erfyniodd ar ddarllenwyr i beidio credu'r storïau ynglŷn â barbareiddiwch a chreulondeb yr Almaenwyr. Rhybuddiodd rhag gosod '[c]ochl sanctaidd' ar y rhyfel, ac yn arbennig ar y sawl – nid enwodd Lloyd George – a honnai mai rhyfel sanctaidd o blaid cenedloedd bychain oedd hwn. Cyfeiriodd at yr hyn a honnai oedd rhagrith Prydain, yn gwrthod amddiffyn Lwcsembwrg ar y naill law, ond yn rhuthro i amddiffyn Gwlad Belg ar y llall.

Pa fath amddiffynwyr cenhedloedd bychain yw'r gwledydd sydd heddyw yn treisio Persia, Ffinland, yr Aifft, a Llydaw? Dyweder yn onest fod Lloegr yn ymladd am ei masnach a'i safle a'i dylanwad ymhlith cenhedloedd y byd. Ond nid yw hynny yn galw ar Eglwys Crist i droi'n 'recruiting agency' i berswadio pobl i fynd i ryfel.⁸

Mynnodd nad cyfrifoldeb arweinwyr eglwysig oedd casglu pobl i'r fyddin, a galwodd ar draddodiad ac olyniaeth heddychwyr mawr yr enwad Annibynnol – Henry Richard, Samuel Roberts a Gwilym Hiraethog – i'w 'gadw'n lan'. Cafwyd yr ymateb chwyrtaf posibl i'w lythyr. Yng ngeiriau ei gofiant, 'dringodd y Prifathro... i binacl ei amhoblogrwydd. Ac yn yr unigrwydd oer hwnnw y ceir ef yn broffwyd gwrthodedig.'⁹

Un o gyfraniadau mwyaf pellgyrhaeddol Thomas Rees oedd sefydlu papur Cymraeg yn unswydd i wrthwynebu'r rhyfel, sef *Y Deyrnas*. Hon oedd yr elfen fwyaf unigryw o'r gwrthwynebiad i'r rhyfel yng Nghymru, sef creu cyfrwng oedd yn asio diwinyddiaeth Gristnogol gyda barn led-sosialidd a oedd yn 'ddaearyl ddirioaethol', gan dalu sylw manwl a deifiol i wleidyddiaeth y cyfnod: 'Ei genadwri fydd mynegi egwyddorion Crist yn nhermau gwleidyddiaeth, masnach, llafur, a holl agweddau ymarferol ein bywyd.'¹⁰

Roedd gan *Y Deyrnas* gylchrediad o oddeutu 3,000 o gopiau trwy Gymru gyfan a denodd rai o awduron ifanc mwyaf nodedig yr oes i gyfrannu. Fe'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Hydref 1916, yn dilyn cyfarfod yn y Bermo yn y mis Mawrth blaenorol wrth i'r gwrthwynebwyr cydwytbodol cyntaf gael eu carcharu. Ymhlith sylfaenwyr a chyfranwyr *Y Deyrnas* roedd T. Gwynn Jones, T. H. Parry-Williams, y Parch. John Morgan Jones, Merthyr, y Parch. John Morgan Jones, Bangor, y Parch. E. Tegla Davies, a'r Parch. J. Puleston Jones, Pwllheli. Ond Thomas Rees oedd calon y fenter, yn olygydd, awdur traean y cynnwys ac yn ysbrydolwr i fintai ddisglair o fyfyrwyr a gweinidogion ifanc, a ffigyrau amlwg yn niwylliant a llên Cymru.

Araf iawn oedd yr awdurdodau i amgyffred arwyddocâd *Y Deyrnas*. Mewn adroddiad mewnol gan yr uned Military Intelligence ar gyfer gogledd Cymru mor hwyr â Chwefror 1918, amgaewyd cyfieithiadau o ddwy erthygl yn *Y Deyrnas* gan swyddog wedi ei leoli yng Nghaer: 'This paper circulates in North Wales. It is not known to what extent. The editor is Principal Thomas Rees of Bala Bangor Training College.'¹¹ Roedd y swyddog yn anghywir ar ddau gownt. Coleg diwinyddol, wrth gwrs, oedd Coleg Bala-Bangor, nid coleg hyfforddi, a chylchrediad cenedlaethol, o rhwng 2,500 a 3,000 o gopiau oedd gan *Y Deyrnas*, gyda'r mwyafrif o

gopiau yn cael eu gwerthu yn y de diwydiannol.¹² Gellid priodoli gwerthiant *Y Deyrnas* i ddylanwad unigolion allweddol yn lleol, yn weinidogion yr efengyl neu yn weithgar yn y mudiad llafur. Ymhlith gwerthwyr *Y Deyrnas*, er enghraifft, roedd hanner dwsin o weinidogion amrywiol a dynion a oedd yn amlwg yn y mudiad llafur, ac yn fwy arbennig yn gysylltiedig â'r Blaid Lafur Annibynnol a'r Social Democratic Federation (SDF). Yn eu plith roedd yr undebwr, sosialydd a Marcsydd adnabyddus ac aelod o'r SDF, D. R. Owen, Garnant; Tom Evans, Ynysmeudwy, ysgrifennydd cangen yr ILP a'r No-Conscription Fellowship (NCF: y Frawdoliaeth dros Wrthod Ymrestru) yn y pentref; a David Thomas, a weinyddai Cyngor Llafur Gogledd Cymru trwy gydol y rhyfel, yn ogystal â gwasanaethu fel gwrthwynebydd cydwbybodol.¹³

Yn ogystal â'r canolfannau hyn, enwyd nifer o gapeli a oedd yn ganolfannau gwrthwynebiad yn aml yn y *Merthyr Pioneer* ac wedi eu lleoli mewn ardaloedd a oedd yn gadarnleoedd i'r ILP yn ne Cymru, tebyg i Jerusalem (Llansawel), Seion (Cwmafon), Carmel (Pant-y-rhyl), Beulah (Cwmtwrch), Bryn Seion (Craig-cefn-parc) a Hope (Merthyr).

Y corff a glymmodd y gwrthwynebiad i'r rhyfel yn fwyaf effeithiol oedd Cymdeithas y Cymod, a sefydlwyd ym mis Hydref 1914 er mwyn creu mudiad heddwch ar sail Cristnogaeth. Eu cred oedd 'mai Cariad, fel a ddangosir gan aberth Iesu Grist, yw'r unig sail wirioneddol ar gyfer Cymdeithas'.¹⁴ Y ddau brif swyddog oedd yr ysgrifennydd, y Parch. Richard Roberts, yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, a George M. Ll. Davies yn ysgrifennydd cynorthwyol. Sefydlwyd y gangen gyntaf yng Nghymru ym Mangor ym mis Mehefin 1915, a'r ail yn Wrecsam ar 2 Mehefin 1915.¹⁵ Lledaenwyd dylanwad Cymdeithas y Cymod i'r de erbyn Medi 1917, pan alwyd cynhadledd yn Llandrindod: daeth 70 o gefnogwyr at ei gilydd, a dewiswyd dau ysgrifennydd – y Parch. D. Wyre Lewis ar gyfer y gogledd, a'r Parch. W. J. Rees, Alltwn ar gyfer y de.¹⁶ Erbyn 1918 roedd nifer o ganghennau Cymdeithas y Cymod trwy Gymru gyfan, ond canolbwynt a man cyswllt y gweithgarwch ar sail Gristnogol yn erbyn rhyfel yn ddiau, yn y Gymraeg neu'r Saesneg yng Nghymru, oedd cylchgrawn *Y Deyrnas*.

Sail gwrthwynebiad aelodau'r ILP i'r rhyfel oedd cymysgedd o wrthwynebiad ar dir moesol ac ar dir gwleidyddol. Ystyrir y Bregeth ar y Mynydd yn unol â'u cred mewn brawdgarwch sosialaidd. Mae John Rae yn crynhoi'r gwrthwynebiad yma fel 'fusion of the political and the moral: socialist opposition to militarism, to restrictions on personal freedom, to undemocratic diplomacy, and to the capitalists' interests invested in the war, was expressed within the context of a moral concern for the sanctity of human life'.¹⁷

Corn siarad yr ILP oedd papur wythnosol y *Merthyr Pioneer*, a oedd yn ddigyfaddawd yn ei wrthwynebiad. Yn y rhifyn cyntaf ar ôl dechrau'r rhyfel datganodd nad rhyfel rhwng gweithwyr Ewrop oedd hwn ond rhyfel dosbarth rhwng y dosbarthiadau a oedd yn rheoli, a thrwy gydol y rhyfel parhaodd i roi sylw diflino i ymgyrchwyr heddwch.¹⁸

Un o'r propagandwyr mwyaf effeithiol yn y mudiad llafur oedd y Parch. T. E. Nicholas, neu Niclas y Glais. Cafodd ei eni yn yr un ardal o sir Benfro â Thomas Rees, a daeth y ddau yn gyfeillion ac yn gydymgyrchwyr yn erbyn y rhyfel. Pontiai Niclas y wedd wleidyddol a chrefyddol o'r gwrthwynebiad i'r rhyfel. Yn ogystal â bod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn sir Aberteifi, roedd yn cynnal beichiau gwrthwynebwyr cydwybodol yn y sir, yn bropagandydd diflino ar ran yr ILP, ac yn gyfaill agos i Keir Hardie. Niclas oedd siaradwr Cymraeg amlycaf yr ILP, ac ysgrifennai yn rheolaidd i'r *Pioneer*. Ef a draddododd bregeth angladdol Hardie, ac a ddewiswyd fel ymgeisydd aflwyddiannus yr ILP yn Aberdâr yn etholiad 1918. I lawer tebyg i Niclas, roedd yn amhosibl gwahanu ei safbwynt gwleidyddol a Christnogol tuag at y rhyfel.

Magwyd y newyddiadurwr Percy Ogwen Jones yn Llaneilian yn Ynys Môn, a chafodd ei hun mewn lleiafrif oherwydd ei agwedd at y rhyfel:

Dim ond dau neu dri ohonom oedd yn gryf ein daliadau. Roeddwn i yn un o'r rheini, a hynny am amryw resymau. Un rheswm oedd y crefyddol wrth gwrs. Ond rheswm arall oedd fod rhyfel yn fy ngolwg i yn ddrwg ynddi ei hun – ac mai gormod o arfogi, yn rhannol gan rai oedd am elwa ar ryfel, oedd wedi arwain iddi. O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd fy ngwrthwynebiad i yn fwy ar dir moesol a gwleidyddol nag ar dir crefyddol. Roedd y cyfan i gyd yn ffurfio agwedd neu safbwynt gwrth-filwrol digon pendant.¹⁹

Tan 1918, dim ond trwy'r Blaid Lafur Annibynnol y gallai aelod unigol ymaelodi â'r Blaid Lafur. Er i'r blaid honno rannu ar fater y rhyfel ym mis Awst 1914, cynhaliodd yr ILP ei gwrthwynebiad i'r rhyfel yn gyson ar y cyfan, er i hyd yn oed Hardie a MacDonald wanio ychydig ar ddechrau'r rhyfel yn wyneb ymateb ysgubol y wlad o'i phlaid.

Yn ne Cymru roedd yr ILP gryfaf, ac yng nghadamleoedd y blaid honno bu'r gwrthwynebiad i'r rhyfel ar ei fwyaf amlwg a thanbaid: yng nghymoedd Aman a Thawe, ardal Cwmafon, Llansawel a Phort Talbot, yn ogystal â Merthyr, Aberdâr, Cwm Rhymni a chymoedd gorllewinol sir Fynwy. Mewn nifer o'u cadarnleoedd, ceid cysylltiad agos rhwng gweinidogion allweddol a dylanwadol a dynion ifanc y blaid yn lleol. Yn

Llansawel, roedd dylanwad Rees Powell, capel Jerusalem, yn fawr, a'r Parch. John Morgan Jones yntau yn Soar, Merthyr Tudful. Yng Nghwm Tawe, er enghraifft, roedd heddychwyr tebyg i'r Parch. Llewelyn Boyer, Eglwys Annibynnol Dan-y-Graig a'r Parch W. J. Rees, Alltwen, ynghyd â Niclas y Glais, yn ddylanwadau mawr ar sosialwyr ifanc fel Gwenallt ac yn eu cynorthwyo i arddel eu gwrthwynebiad cydwybodol trwy eu hyfforddi i wynebu'r tribiwnlys yn eofn.²⁰ Yng ngogledd Cymru, roedd canghennau llewyrchus gan y blaidd yn ardal chwarelyddol sir Feirionnydd a sir Chaernarfon ar ddechrau'r rhyfel, cyn i gyni economaidd gau chwareli a gwasgaru'r gweithwyr o 1915 ymlaen.²¹

I'r ILP ac eraill o fewn y mudiad llafur, ystyrid gorfodaeth filwrol yn rhan o gynllwyn i greu gorfodaeth ddiwydiannol a'r hyn a elwid 'the thin edge of the wedge of Czarism'.²² O ganol 1916 ymlaen cynhaliwyd cyfarfodydd protest cyson yn erbyn y rhyfel, a'r brif ganolfan oedd Rinc Olympia Merthyr lle cynhelid cyfarfodydd protest dan nawdd y Gymdeithas Heddwch leol neu'r ILP. Yno ceid tyrfaoedd o oddeutu tair mil o bobl o ganol 1916 a thrwy gydol 1917 mewn cyfnod a welodd gefnogaeth ymhlith dosbarth gweithiol de Cymru i'r Chwyldro yn Rwsia, ac a welodd bwysau cynyddol am heddwch. Llwyddodd y syndicalwyr Cymreig o fewn Ffederasiwn Glowyr Prydain i atal cyflwyno gorfodaeth filwrol ymhlith glowyr Prydain am 11 mis cyfan, tan iddynt gollu'r bleidlais yn y balot ym mis Tachwedd 1917. Roedd yr agweddau gwahanol at y rhyfel yn bwydo'r drwgdeimlad a'r ddrwgdybiaeth rhwng Ffederasiwn y Glowyr a'r perchnogion, a danseiliai'r ymdrech ryfel o fewn y diwydiant glo.

Elfen bwysig o'r gwrthwynebiad i'r rhyfel oedd y garfan Farcsaidd a gredai mewn rhyfel dosbarth ond nid rhyfel rhwng grymoedd cyfalafol. Fe'i hysbrydolwyd gan y *Miners' Next Step* a'r gred mewn undebaeth ddiwydiannol yn hytrach na grym gwleidyddol pleidiol. Arthur Horner oedd un o'r dynion ifanc a dyfodd mewn dylanwad o fewn Ffederasiwn y Glowyr yn ystod y rhyfel, ac a ymladdodd yn erbyn arweinwyr mwy ceidwadol a oedd yn gefnogol i'r rhyfel. Yn ei hunangofiant honnai Horner mai ei elyn agosaf oedd perchnogion y gweithfeydd glo a'r llywodraeth yn hytrach na'r Caisar. Er mwyn osgoi gorfod ymuno â'r fyddin ym mis Mawrth 1917, dihangodd Horner dros y môr i Ddulyn ac ymuno â Byddin Dinasyddion Iwerddon, cyn dychwelyd a chael ei ddal ym mhorthladd Caergybi yn cario pamffledi propaganda yn erbyn y rhyfel.²³ Gyda'r un safbwynt â Horner, gellid cyfrif darlithwyr a thiwtoriaid Marcsaidd eu hanian a hyfforddai ddynion ifanc blaengar mewn dosbarthiadau nos a drefnwyd gan y Plebs League a'r Central

Labour College. Carcharwyd nifer ohonynt fel gwrthwynebwyr cydwybodol, ac yn eu plith roedd Nun Nicholas, ffigwr dylanwadol iawn yng Nghwm Tawe, Mark Starr o Aberdâr, athronydd praff a galluog. Erlidiwyd arweinwyr eraill gan gynnwys Noah Ablett ac A. J. Cook am eu parodrwydd i herio'r awdurdodau a galw am ddiwedd i'r rhyfel. Datblygodd nifer o'r dynion hyn yn arweinwyr Ffederasiwn y Glowyr, ac ymhlith sefydlwyr y Blaid Gomiwnyddol newydd yn ne Cymru ar ôl y rhyfel.

Y cyrff a sefydlwyd i weinyddu'r Ddeddf Gorfodaeth Filwrol ym mis Ionawr 1916 oedd y tribiwnlysoedd lleol, gyda llys apêl ym mhob sir, a llys apêl ganolog i wrando ar apeliadau eithriadol. Beirniadwyd agwedd y tribiwnlysoedd yn hallt gan wrthwynebwyr rhyfel o'r cychwyn cyntaf, ond i ba raddau roedd y feirniadaeth ar dribiwnlysoedd yn deg?

Ar y naill law, roedd disgwyl iddynt sicrhau cymaint ag a oedd yn bosibl i ymuno â'r fyddin, ond ar y llaw arall roedd disgwyl iddynt roi chwarae teg i'r sawl a oedd am gael ei eithrio rhag ymuno a'r lluoedd arfog. Ar y cyfan, fel niwsans di-alw-amdano y gwelid y gwrthwynebwyr. Eglura Rae nad oedd y tribiwnlysoedd wedi derbyn cyfarwyddyd am ba opsiynau a oedd ar gael ac roeddent yn ddrwgdybus o'r ceisiadau, ac felly 'nervous of the implications of being "soft" on pacifism in wartime, [they] treated early cases relatively harshly, offering at most the non-combatant option'.²⁴

Roedd hyd yn oed y papurau lleol a oedd o blaid y rhyfel yn edliw i'r tribiwnlysoedd eu ffaelectedau. Credai papur lleol Blaenau Ffestiniog fod aelodau'r tribiwnlys lleol yn camgymryd natur y tribiwnlysoedd:

Camgymeriad rhai yw tybio mai swyddfa Ricriwtio y dylai Tribunal fod. A barnu oddiwrth eiriau rhai aelodau o'r Tribwnalau gallesid tybio mai llys i yrru dynion i'r Fyddin yw tribunal. Ni fuasai yn bosibl gwneyd camgymeriad mwy. Llys yw y Tribunal i ddal y fantol yn deg rhwng y Fyddin a'r wlad... Pan welir y fainc yn wneud gwaith y military representative, nid yw yntau yn deilwng o'r ymddiriedaeth osodwyd ynddo.²⁵

Cwestiynai papur gwrthryfel llafurol ardal Caernarfon, *Y Dinesydd Cymreig*, sut y gallai'r tribiwnlys apêl lleol ddyfarnu apeliadau gwrthwynebwyr cydwybodol mewn modd cytbwys, a phwysleisiwyd anhawster osgoi rhagfarn yn eu herbyn:

nid gorchwyl hawdd yn ol y cyfansoddiad presennol ydyw cadw yn hollol glir o'r dylanwadau hyn, gan fod aelodau y llys a'r person fo'n apelio, yn enwedig mewn ardaloedd bychain, yn adnabod eu gilydd, ac

yn meddu ar rhyw gysylltiadau a rhyw chyfathrachiadau allant brofi yn anfanateisiol i weinyddiad barn onest ac unplyg... Hwyrach mai'r apelydd gaiff mwyaf o gam oddiar ddwylo y Llys ydyw y gwrthwynebydd cydwybodol. Mae'n amheus genym oddi wrth eu gweithrediadau a ydynt yn deall safle rhai apeliant oddiar ystyriaeth gydwybodol.²⁶

Yn aml roedd tribiwnlysoedd naill ai yn anwybodus neu yn gwrthod gweithredu yn ôl canllawiau canolog yn ymwneud â gwrthwynebiad cydwybodol. Cyn hwyrdd â mis Ebrill 1917, bu'n rhaid i brifathro Coleg Diwinyddol y Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin, W. J. Lewis, esbonio wrth dribiwnlys y dref fod rheoliadau yn eu lle yn eithrio myfyrwyr diwinyddol o wasanaeth milwrol, cyn belled â'u bod yn astudio ar gyfer y weinidogaeth.²⁷

Nid oedd llawer o dribiwnlysoedd chwaith yn deall fod ganddynt hawl i roi eithriad diamod i wrthwynebwyr cydwybodol dan y ddeddf. Cydnabu tribiwnlys apêl sir Ddinbych, er enghraifft, fod ei glerc a'i aelodau heb fod yn ymwybodol o'u hawl i weithredu felly dan y ddeddf.²⁸

Roedd gwahaniaeth mawr rhwng agweddau tribiwnlysoedd a'i gilydd. Yn ôl Barlow, tueddai tribiwnlysoedd gwledig i eithrio mwy o ddynion na thribiwnlysoedd trefol.²⁹ Ar raddfa Brydeinig, un recriwt o bob tri a ymunodd â'r fyddin dan orfodaeth. Mae dadansoddiad Barlow o recriwtio yn sir Gaerfyrddin yn awgrymu bod un dyn wedi ymuno â'r fyddin am bob naw dyn a eithriwyd o'r fyddin, a gellir tybio bod y tribiwnlysoedd yno yn cydymdeimlo gyda'r angen i gadw digonedd o ddynion gartref er mwyn cynnal y diwydiant amaethyddol yn benodol.³⁰

Roedd yn anochel bod y mwyafrif o aelodau'r tribiwnlysoedd yn elyniaethus i'r gwrthwynebwyr. Wedi'r cyfan, roedd cynifer ohonynt hefyd wedi gwasanaethu ar bwyllgorau cynllun Derby i annog recriwtio gwirfoddol flwyddyn ynghynt. Doedd wiw i unrhyw aelod ychwaith ddatgan cydymdeimlad gyda gwrthwynebwyr. Roedd James Price yn gynghorydd yn cynrychioli yr ILP ar gyngor Aberafan. Ar ôl iddo gadeirio cyfarfod cyhoeddus yn erbyn gorfodaeth filwrol, cafodd ei ddiarddel o'r tribiwnlys gan ei gyd-gynghorwyr yn dilyn cwyn gan y cynrychiolydd milwrol lleol.³¹

Elfen fwyaf amlwg y gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr oedd y gwrthwynebwyr cydwybodol a wrthododd dderbyn awdurdod y wladwriaeth a'r lluoedd arfog. Y diffiniad o'r gwrthwynebwyr cydwybodol oedd y dynion hynny a oedd wedi penderfynu eu bod yn gwrthwynebu ac yn ymwrthod â gwasanaeth milwrol gorfodol pan y'i cyflwynwyd ym mis Ionawr 1916.³² Roeddent yn grŵp cymysg o ddynion yn dod o gefndiroedd amrywiol tu hwnt. Gallai gwrthwynebiad ar sail cydwybod gynnwys nifer

helaeth o gymhellion, ond gellir eu gosod mewn pedwar categori yn bennaf, sef gwrthwynebiad ar sail Gristnogol a ystyriai na ddylid ymuno mewn byddin neu ymdrech ryfel; ar sail foesol i ymladd a chymryd bywyd; ar sail sosialaeth ryngwladol yn gwrthwynebu ymladd yn erbyn cydweithwyr; a gwrthwynebiad lle roedd yr unigolyn yn gwrthod hawl y wladwriaeth i'w orchymyn i ymladd. Roedd anhawster mawr gan y wladwriaeth i benderfynu sut i werthuso difrifoldeb cydwybod ac i asesu cymhwyster ceisiadau gwrthwynebwyr i gael eu heithrio.

Disgrifiodd Percy Ogwen Jones y gwrthwynebwyr cydwybodol fel 'ceinciau cymysg' – gyda chymhellion amrywiol, ac yn gwrthwynebu'r rhyfel ar nifer o seiliau:

Rhaff ac iddi amryw geinciau oedd mudiad heddychwyr 1914–18. Ar un ystyr nid oedd yn fudiad o gwbl; yn hytrach, damwain a chyd-ddigwydd a ddug y ceinciau hyn at ei gilydd yn un rhaff, a Deddf Gorfodaeth 1916 a wnaeth y rhaff... Un agwedd wedi ein hasio'n fudiad a pheri gwrthdrawiad â deddf gwlad. Yr oedd yn wrthdaro yr unigolyn â'r wladwriaeth. Mi gredaf fod i hynny ei werth, a'i fod weithiau'n anochel.³³

Doedd yna ddim un greddo neu athroniaeth yn eu clymu at ei gilydd. Datganiad ffydd yr NCF oedd y peth agosaf i'r hyn a unai'r criw yma o ddynion, a phwysleisiai hwnnw sancteiddrwydd bywyd a gwrthod hawl y wladwriaeth i orfodi gorfodaeth filwrol. Yn ôl yr NCF, roedd y mwyafrif o wrthwynebwyr yn gwrthwynebu rhyfel ar dir moesol, gan gynnwys nifer helaeth ar sail Gristnogol. Roedd nifer fach yn ddilynwyr Tolstoy, ond roedd nifer hefyd o'r gwrthwynebwyr cydwybodol yn sosialwyr a gredai 'mor gryf ym Mrawdgarwch Dyn ag y gwnâi Cristnogion gredu mewn Duw fel Tad'.³⁴ Roedd eraill, a oedd yn wrthwynebwyr ar sail wleidyddol, yn gwrthwynebu gorfodaeth filwrol am ei bod yn tanseilio rhyddid dyn ac yn arwain y ffordd i orfodaeth yn y gweithle; credent fod polisi tramor ffôl ar ran Prydain yn rhannol gyfrifol am y rhyfel, neu fod y rhyfel wedi ei achosi gan grwpiau o ddynion yn cynrychioli buddiannau cyfalafol o fewn y gwledydd a oedd yn ymladd. Mewn gwirionedd, yn aml iawn roedd yn anodd gwahaniaethu rhwng y sawl a wrthwynebai ar sail foesol neu ar sail wleidyddol, wrth i lawer nodi'r Bregeth ar y Mynydd fel y dylanwad pennaf arnynt.

Ond roedd sectau crefyddol tebyg i'r Cristadelffiaid, y Plymouth Brethren a Thystion Jehovah, nad oeddent o reidrwydd yn erbyn rhyfel, ond yn gwrthod derbyn awdurdod y wladwriaeth. Cafodd y Cristadelffiaid, er enghraifft, eu heithrio ar yr amod eu bod yn gwneud gwaith o 'bwysigrwydd cenedlaethol', yn aml mewn ffatri arfau.

Mudiad yr NCF oedd y pwysicaf o ran ceisio trefnu'r gwrthwynebwyr cydwybodol. Ffurfiwyd y sefydliad yn Llundain ym mis Tachwedd 1914, a sefydlwyd y gangen gyntaf yng Nghymru yn Llansawel (Morgannwg) ym Mehefin 1915, ynghyd â changhennau ar gyfer sir Fynwy, canol Morgannwg ac Abertawe.³⁵

Aelodau ifainc o'r ILP yn bennaf a ymgwymerodd â'r gwaith o sefydlu canghennau, ond denodd heddychwyr pasiffistaidd yn ogystal. Cadeiriwyd yr NCF yng Nghymru gan Morgan Jones, ysgolfeistr yng Nghaerffili. Fe'i disgrifiwyd yn ei wrandawriad yn y tribiwnlys, fel 'dyn cyhoeddus adnabyddus, ac un o'r dynion gwrth-filitaraidd mwyaf amlwg yn y wlad'. Roedd yn llywydd Cyngor De Cymru yn erbyn Gorfodaeth Filwrol, ac yn un o aelodau pwyllgor cenedlaethol yr NCF. Roedd hefyd yn gadeirydd yr ILP yn ne Cymru, yn sosialydd blaenllaw, yn aelod o Gyngor Gelligaer a chyrrff cyhoeddus eraill.³⁶

Erbyn Mai 1916, roedd gan Gymru 23 cangen o'r NCF – yn bennaf yng ngorllewin Morgannwg, Caerdydd, Abertawe, ardaloedd Aberdâr a Merthyr, a chymoedd gorllewinol sir Fynwy.³⁷ Roedd cwlwm clôs ac annatod rhwng yr NCF a'r ILP, a nifer o drefnwyr yr NCF hefyd yn weithgar iawn gyda'r ILP. Yn eu plith roedd John Thomas (Aberdâr), Tom Evans (Ynysmeudwy), George Dardis (Risca), y Parch. T. E. Nicholas (sir Aberteifi).³⁸ Niclas y Glais oedd cydlynnydd yr NCF yn sir Aberteifi, ac er nad oedd cangen fel y cyfryw yng ngogledd Cymru, bu David Thomas a'r Prifathro Thomas Rees ymhlith eraill yn cynghori a hyfforddi gwrthwynebwyr cydwybodol cyn iddynt ymddangos gerbron tribiwnlys.

Synnwyd yr awdurdodau gan niferoedd y dynion a ddaeth gerbron tribiwnlysoedd o fis Chwefror 1916 ymlaen. Prin fod y llywodraeth wedi ystyried yn ddwys yr hyn a fyddai'n digwydd i'r gwrthwynebwyr pe baent yn gwrthod cydweithredu â'r awdurdodau milwrol. Yng Nghymru, mewn nifer o ardaloedd, ymddangosodd grwpiau sylweddol o wrthwynebwyr cydwybodol gerbron tribiwnlysoedd. Bu 23 o fyfyrwyr Coleg Bala-Bangor a rhai colegau eraill ym Mangor o'u blaen; cyfanswm o 62 ym Mhontardawe, yn gymysgedd o aelodau'r ILP a nifer o wrthwynebwyr Cristnogol; 32 ym Merthyr; a 24 yn nhrifiwnlys Aberpennar.³⁹

Dechreuwyd carcharu dynion ym mis Ebrill 1916, ond yn fuan sylweddolodd y fyddin a'r llywodraeth fod angen cynnig ateb amgen i'r gwrthwynebwyr cydwybodol. O'r herwydd, ym mis Mehefin, cyflwynwyd opsiwn arall, sef trosglwyddo'r gwrthwynebwyr cydwybodol i garchar sifil, a than gynllun y Swyddfa Gartref, cynigid gwaith 'o bwysigrwydd cenedlaethol' i'r sawl a dderbyniai. Adolygwyd yr achosion gan Dribiwnlys Canolog, a rhoddid caniatâd i ddynion ymuno â chynllun y

Swyddfa Gartref os gallent berswadio'r tribiwnlys eu bod yn ddiffuant yn eu gwrthwynebiad. Ceisiodd y fyddin laesu ei dwylo â'r gwrthwynebwyr a cheisiwyd trosglwyddo'r broblem i'r awdurdodau sifil. Serch hynny, daliodd y gwrthwynebwyr cydwybodol 'absoliwt' i greu anawsterau parhaus i'r fyddin.

Amcangyfrif Rae yw bod tua 16,500 o ddynion ym Mhrydain yn ystod y Rhyfel Mawr yn wrthwynebwyr cydwybodol.⁴⁰ Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli oddeutu 0.66 y cant o'r nifer o ddynion a ymunodd â'r fyddin ar ôl cyflwyno gorfodaeth filwrol ym mis Ionawr 1916.⁴¹ Ar sail yr un cyfartaledd o wrthwynebwyr cydwybodol i ddynion a recriwtiwyd dylai Cymru fod wedi cynhyrchu 840 o wrthwynebwyr cydwybodol.

Yng Nghymru, mae oddeutu 720 o ddynion wedi eu hadnabod fel gwrthwynebwyr cydwybodol, ond nid yw'r nifer hon yn gyflawn.⁴² Nid yw hwn yn cynnwys 150 o ddynion a ymunodd ag uned arbennig o'r Royal Army Medical Corps (RAMC), na 29 o Gymry a oedd yn perthyn i Uned Ambiwlans y Crynwyr.⁴³ Hefyd, gwyddom fod 155 o Gristadelffiad yng Nghymru wedi cael eu nodi yng nghofnodion Pwyllgor Pelham ond dim ond 44 o'r rhain sydd ar y rhestr hon: felly golyga hyn y gellir ychwanegu o leiaf 111 arall at y cyfanswm o 720.⁴⁴

Daw'r rhestr o 25 o fyfyrwyr Bangor o bapurau lleol, papurau Bala-Bangor a phapurau Thomas Rees, ond daw manylion y mwyafrif o wrthwynebwyr cydwybodol yng Nghymru o gofnodion y Tribiwnlys Canolog ac adroddiadau'r NCF a phapur yr NCF, *The Tribunal*. Nid yw'r gwrthwynebwyr cydwybodol o Gymru a ymddangosodd yn unig gerbron tribiwnlysoedd yn Lloegr wedi eu cynnwys yn yr ystadegau isod. Felly nid ydynt yn cynnwys unigolion tebyg i Harold Watkins o Lanfyllin, er enghraifft, a ymddangosodd gerbron tribiwnlys Ledbury yn swydd Henffordd lle bu'n dysgu mewn ysgol ar gyfer Crynwyr, ac a garcharwyd bum gwaith yn ystod y rhyfel, neu chwaith G. M. Ll. Davies, a ymddangosodd gerbron ei dribiwnlys cyntaf yn Finchley, Llundain.⁴⁵

Dewis y gwrthwynebwyr cydwybodol oedd naill ai gwrthod cyfaddawdu a derbyn tymhorau olynol o garchar, sef yr absoliwtiaid, neu dderbyn gwaith o ryw fath na fyddai yn cael ei ystyried yn gymorth i'r fyddin, sef yr 'alternativists', sef y mwyafrif o wrthwynebwyr.

Roedd y llywodraeth yn benderfynol o wneud llwybr yr absoliwtiaid yn anodd. Dywedodd Lloyd George, Gweinidog Rhyfel, ei fod yn gwneud ei orau glas i beidio cynnig consesiynau iddynt:

With that kind of men I personally have absolutely no sympathy whatsoever, and I do not think they ought to be encouraged... I do not

think they deserve the slightest consideration... I shall only consider the best means of making the path of that class a very hard one.⁴⁶

Lleiafrif o wrthwynebwyd cydwybodol, sef rhyw 6 y cant o'r cyfanswm ar draws Prydain, a wrthododd gydweithredu â'r llywodraeth yn llwyr ac i'r graddau eu bod wedi gwrthod unrhyw waith a elwid yn 'waith o bwysigrwydd cenedlaethol'.

Ildiodd nifer o ganlyniad i'w cosb, a phenderfynodd eraill ymuno â chynlluniau arbennig y llywodraeth ar gyfer y gwrthwynebwyd, sef cynllun Pelham neu gynllun y Swyddfa Gartref. Ond ar draws Prydain, bu 816 mewn carchar am fwy na dwy flynedd, a bu sawl un yn y carchar am hyd at chwech o gyfnodau gwahanol:

Dwy waith	655
Tair gwaith	521
Pum gwaith	50
Chwe gwaith	3 ⁴⁷

Yn Nghymru, carcharwyd rhai cannoedd, ond cytunodd y mwyafrif wedyn i dderbyn gwaith o ryw fath. Roedd o leiaf 85 o ddynion yn absoliwtiaid, a hwythau a restrir yn nhabl 7.2.

Unwaith	31
Dwy waith	32
Tair gwaith	15
Pedair gwaith	5
Pum gwaith	2 ⁴⁸

Adlewyrchai'r dynion hyn y gymysgfa o ddaliadau gwleidyddol a chrefyddol a gymhellai'r gwrthwynebwyd i fabwysiadu agwedd gwbl ddigymrodedd yn erbyn y rhyfel.

Y ddau a garcharwyd bum gwaith oedd Ithel Davies o Gwm Tafolog ym mhlwyf Cemaes yn sir Drefaldwyn, ac Emrys Hughes o Abercynon. Roedd y ddau yn sosialwyr ond yn dod o gefndiroedd gwahanol iawn. Roedd Ithel Davies yn fab fferm a oedd eisoes yn adnabyddus fel bardd a llenor. Dylanwadwyd arno gan Undodiaeth a sosialaeth ei dad a chan bapur y Blaid Lafur, a dderbynnid gartref.⁴⁹ Roedd eisoes wedi dwyn perswâd ar nifer o fechgyn ifainc yr ardal i ymuno â'r NCF, a chredai mai dyna pam y'i herlidiwyd gan yr awdurdodau.⁵⁰

Roedd Emrys Hughes wedi bod yn athro dan hyfforddiant ac eisoes yn amlwg iawn yn yr ILP yn ne Cymru. Roedd yn sosialydd ac yn gyfaill agos i Keir Hardie. Ymresymai na allai gefnogi rhyfel rhwng grymoedd imperialaidd a gadael i'r dosbarth gweithiol ddioddef yn y gyflafan a mynnodd gael ei eithrio o wasanaeth milwrol ar sail ei sosialaeth. Credai, meddai, fod rhyfel a militariaeth yn wrthwynebus i les y bobl ac i ddatblygiad dynoliaeth.⁵¹

Mae'r pum gwrthwynebydd a garcharwyd bedair gwaith yn adlewyrchu'r amrywiaeth o safbwyntiau yn erbyn rhyfel, lle roedd cymhellion gwleidyddol, crefyddol a moesol yn aml yn gymysg. Disgrifiodd Chris Morgan o Bontarddulais ei hun fel undebwr llafur yn yr Undeb Trafnidiaeth ac fel Annibynnwr. Roedd Pryce Brown, o'r Trallwng, yn fyfyrwr a oedd wedi gweithio ar fferm. Roedd E. D. Mort yn sosialydd adnabyddus ac yn aelod blaenllaw o Undeb y Docwyr yn Nhaibach, ger Port Talbot. Roedd Philemon Edwards, o Dongwynlais, yn aelod o'r ILP, yn Fedyddiwr ac yn aelod o'r Crynwyr a hefyd yn aelod o'r NCF ac yn löwr. Roedd Edgar Davies, o'r Fenni, yn aelod o Gymdeithas y Cymod, yn Fedyddiwr ac yn fynychwr cyfarfodydd y Crynwyr. Roedd yn aelod hefyd o'r NCF, a'r mudiad yn erbyn y rhyfel, yr Union of Democratic Control, ac wedi bod yn glerc banc ac athro mewn ysgol i'r Crynwyr yn Great Malvern, swydd Caerwrangon.⁵²

Roedd derbyn gwaith o unrhyw fath gan y wladwriaeth yn annerbyniol i'r absoliwtiaid hyn. Hyd yn oed os nad oedd gwaith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhyfel, byddai yn rhyddhau rhywun arall i wneud gwaith rhyfel. Yn haf 1916, dechreuwyd cynnal Tribiwnlys Canolog a wrandawai ar achosion gwrthwynebwyr cydwybodol mewn carchar, a chynnig 'gwaith o bwysigrwydd cenedlaethol' iddynt. Yn ôl Ithel Davies:

teimlem ni a wrthododd fod y lleill wedi ein bradychu braidd ac wedi ei gwneud yn haws i'r llywodraeth ein cadw yng ngharchar. Teimlem, petai pawb wedi gwrthod ac wedi hawlio rhyddid diamodol, y byddai'n anos i'r llywodraeth ein cadw yng ngharchar.⁵³

Yr eithriad mwyaf cyfyng i wasanaethu yn y fyddin ar gyfer gwrthwynebwyr cydwybodol oedd yr hwn a gynigid gan y Non-Combatant Corps (NCC). Roedd disgwyl i wrthwynebwyr weithio naill ai ym Mhrydain neu dramor ac roedd y gwaith yn cynnwys cario stretsieri, gwaith porthor mewn ysbytai ac amrywiaeth o waith corfforol. Roedd ymuno â'r NCC yn gwbl annerbyniol i'r mwyafrif o wrthwynebwyr gan fod disgwyl iddynt wisgo iwniform a dod dan awdurdod y fyddin. Yn ysgrifennu o Barc Cinmel ym mis Medi 1916, dangosodd y gwrthwynebydd cydwybodol digyfaddawd E. H. Wilson ei anfodlonrwydd â'r rhai a ymunodd â'r NCC:

Myself, I cannot look upon those who have accepted non-combatant service as being real Conscientious Objectors. You either object to any army service or you do not. To be hanging on the fringe of the army, doing easy and safe work, seems very inconsistent.⁵⁴

Un anhawster sylweddol oedd y diffyg cytundeb ynglŷn ag ystyr y term 'non-combatant'. Weithiau gorchymynnwyd i'r gwrthwynebwyr gario arfau neu ffrwydrion. Yn y pen draw ymunodd un o bob tri o wrthwynebwyr yn yr NCC, ond arwydd o fethiant yr opsiwn oedd i bron hanner ohonynt wrthod ufuddhau i orchmynion ar ôl sylweddoli natur gwaith y corfflu ac felly ymddangos o flaen llys milwrol a chael eu carcharu.⁵⁵

Ym mis Mai 1916, ceisiwyd gorfodi Percy Ogwen Jones i ymuno â'r NCC ym Mharc Cinmel, wedi rhoi ystyriaeth i gyngor di-ildio Bertrand Russell ar y pryd, nid yn unig bod ymladd yn ddrwg ond bod helpu eraill i ymladd yn ddrwg:

O dipyn i beth, fel y deuai'n fwyfwy eglur beth oedd gwaith NCC, sylweddolwn na allwn aros i'w wneud. Un bore dyma wrthod... Daeth sarjant i'r cwt a gorchymyn imi fynd ar barêd. Gwrthodais a dweud na allwn ufuddhau dim rhagor i orchmynion milwrol. Aethpwyd i nol sarjant arall, dywedais yr un peth wrth hwnnw a'r canlyniad oedd mynd a fi i'r guard room. Yno fe'm cefais fy hun yn un o ddeg neu ddeuddeg oedd wedi penderfynu'n debyg imi.⁵⁶

O ganlyniad dedfrydwyd Percy Ogwen Jones i ddwy flynedd o garchar ac fe'i hanfonwyd i Wormwood Scrubs. Lleihawyd ei ddedfryd yn ddiweddarach i dri mis, a threuliodd weddill y rhyfel mewn carchardai a gwrsylloedd dan gynllun y Swyddfa Gartref.

Sefydlwyd Pwyllgor Pelham ym mis Ebrill 1916 i ddelio â gwrthwynebwyr cydwybodol a oedd yn barod i ymgymryd â gwaith o

'bwysigrwydd cenedlaethol'. Cawsant weithio fel arfer ar ffermydd, mewn coedwigaeth, neu ffatrioedd. I'r pwyllgor, roedd y gwrthwynebwyr cydwybodol weithiau yn drafferthus ac yn aml yn anaddas ar gyfer bywyd milwrol:

taken as a whole COs seemed to be abnormal in their general outlook on life, as well as in the matter of military service, and a substantial number of them were found to suffer from some form of physical disability.⁵⁷

O'r 203 o Gymru a dderbyniodd waith gan bwyllgor Pelham, roedd tri-chwarter ohonynt yn Gristadelffiad, y mwyafrif o ardaloedd trefol Morgannwg, sir Fynwy ac ardal Llanelli a Rhydaman yn sir Gaerfyrddin. Eu hegwyddor sylfaenol yng nghyd-destun y rhyfel oedd eu bod yn gwrthod yn lân â derbyn awdurdod y wladwriaeth ac felly'n gwrthod gorfodaeth filwrol.

Yn wyneb y llif o wrthwynebwyr cydwybodol i'r carchardai erbyn canol haf 1916, ymateb y llywodraeth trwy enau Lloyd George oedd peidio ag ildio modfedd i'r gwrthwynebwyr ar sail absoliwt ond i roi cyfle i wrthwynebwyr weithio mewn gwersylloedd arbennig dan ofal y Swyddfa Gartref. Crëwyd gwersyll yn Dyce ger Aberdeen lle gweithiodd 250 dynion mewn chwarel wenithfaen. Ond gan fod yr amgylchiadau yno mor ddrwg, caewyd y gwersyll ac anfon y dynion yn ôl i garchar yn Wakefield a Warwick.

Ym mis Mawrth 1917, trosglwyddwyd traean o'r gwrthwynebwyr a oedd dan y cynllun i Princetown yn Dartmoor, a drowyd yn ganolfan waith. Disgrifiodd George M. Ll. Davies fywiogrwydd amrywiol y gwrthwynebwyr cydwybodol yno:

Er Corinth ni bu erioed gymaint o gymysgedd credoau ac opiniyniau – Eglwyswyr, Pabyddion, Presbyteriaid, Methodistiaid, Christadelffiad, 'Plymouth Brethren', Marxian Socialist, Anarchists, Gwyddelod, Saeson, Scotiaid, Cymry, Iddewon, Rwsiaid, arlunwyr – yn byw, bwyta ac yn bod tu fewn i furiau uchel ty'r caethiwed. Ar ddrws un gell gwelir y Rhybudd, 'Gwaed. Pa fodd y dihangoch.'

Yng nghell y Pabydd y mae croes a chanwyllau, mewn ystafell o'r neilldu y mae'r Crynwyr yn cyfarfod mewn distawrwydd a brawdoliaeth addoliad sydd yn agored i bawb. Mewn man arall y mae'r Plymouth Brothers yn canu'n uchel am gariad Crist, ond yn gwrthod caniatad i Gristion o enwad arall uno a'r gwasanaeth. Y mae'r Sosialwyr wedi rannu'n gyffelyb: un ysgol a blediant y Rhyfel Dosbarth – Gweithiwr yn erbyn Meistr – yn gwawdio a chondemnio Sosialwyr yr ILP y rhai a gredent nad yw ennill y feistrolaeth ar gyfalaf yn Alpha ac Omega pob

ymgais llafurawl. Y mae yr Anneddfwr (Anarchist) yn ysgwyd ei ben arnynt ill eu dau ac yn gofyn paham y talent y fath wrogaeth i lywodraeth a cheisio ennill a defnyddio ei awdurdod, hyn lle argyhoeddi y werin mai mewn Llywodraethau – a'r gallu a roddir iddynt ormesu gwerin gan y werin – y mae'r drwg gwreiddiol yn dechreu.

Wrth ddyfod o unigedd carchar y convicts teimla dyn fraw a syndod bron wrth gael ei daflu yn ddisymwth i'r fath for o ryddid a gwahaniaethau mewn meddwl, cred, ac opiniwn. Nid oes un dim yn gysegredig na heb fod yn agored i'w herio. Os oes un agwedd feddyliol yn fwy amlwg na'i gilydd – yr agwedd i wrthsefyll ydyw – gwrth-filitariaeth, gwrth-awdurdod – boed feddyliol neu gymdeithasol. Dyma effaith y carchar – creu yspryd ystyfnig, a dyfnhau gwrthwynebiad... Ond ymhen amser, daw'r profiad fod dynion yn aml yn well na'u credo ac weithiau yn waeth.⁵⁸

Crëwyd canolfannau eraill, gan gynnwys nifer yng Nghymru – Llanddeusant tu allan i Langadog, Llannon ger Llanelli, Penderyn, lle adeiladwyd argae, a Thalgarth, lle roddwyd gwaith i'r gwrthwynebwyr adeiladu sanatoriwm. Er gwaethaf awyrgylch y cyfnod, ceid ymateb cefnogol mewn sawl man. Yn Llannon yng Nghwm Gwendraeth, er enghraifft, cawsent groeso cynnes. Y Tymbl oedd y pentref agosaf, a byddai'r gwrthwynebwyr yn derbyn gwahoddiadau i de a chael caniatâd y gyfrinfa leol i ddefnyddio'r llyfrgell a'r 'stiw't' yn lleol.⁵⁹

Mae'n briodol hefyd ystyried grŵp o ddynion a ystyriai eu hunain yn wrthwynebwyr cydwybodol, ond a osgodd y broses ffurfiol o ddatgan gwrthwynebiad, wrth iddynt ymuno â chwmmi arbennig o'r RAMC a sefydlwyd ym mis Ionawr 1916. Y ddau a oedd tu cefn i sefydlu uned Gymreig y gatrawd oedd y Parch. John Williams, Brynsiencyn a'r Brigadydd Owen Thomas. Rhan o'r cytundeb sylfaenol ar gyfer sefydlu'r gatrawd oedd na throsglwyddid yr un aelod o'r cwmni tan unrhyw amgylchiadau o'r RAMC i unrhyw adran ymladdol o'r fyddin.

Roedd Albert Evans Jones (Cynan) ar y pryd yn fyfyrwr gradd yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor. Wrth adrodd hanes sefydlu'r cwmni, pwysleisiodd mai 'cwmni o basiffistiaid' oeddent gan mwyaf, a bod ganddynt 'wrthwynebiad cydwybodol i ladd ac ymladd'.⁶⁰ Myfyrwr o Gymru oedd y mwyafrif o'r uned newydd, o Goleg Diwinyddol y Bala, Bala-Bangor, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, Coleg Dewi Sant, a Choleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Ond taflywyd amheuan ar yr addewidion a roddwyd iddynt am eu statws arbennig gan orchymyn milwrol ar 14 Mehefin 1918, a dywedwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Swyddfa Ryfel i drosglwyddo'r myfyrwr diwinyddol Cymreig i'r *infantry*. Esbonia R. R. Williams mai modd oedd hwn i hwyluso ffordd tri o

aelodau'r corfflu i ennill comisiwn pellach yn y fyddin, ac mewn catrawd a oedd yn hogi arfau, ond tanseiliwyd egwyddor sefydlu'r cwmni.⁶¹

Felly casgliad amrywiol iawn o ddynion oedd gwrthwynebwyr cydwybodol Cymru, yn dod o gefndiroedd amrywiol yn nhermau economaidd ac o ran eu credoau. Roeddent yn cynnwys dynion amlwg, yn eu plith yr awduron Gwenallt, T. H. Parry-Williams, y newyddiadurwr Percy Ogwen Jones, a'r bardd, llenor, addysgwr ac arweinydd y Blaid Lafur yng ngogledd Cymru, David Thomas. O'r byd gwleidyddol roedd o leiaf chwech a ddaeth yn Aelodau Seneddol, gan gynnwys Ness Edwards, Emrys Hughes, Morgan Jones, Thomas William Jones a'i frawd James Idwal Jones o Bonciau, Wrecsam, a George M. Ll. Davies. Roedd addysgwyr amlwg, nifer yn Farcswyr rhonc, fel Nun Nicholas a Mark Starr, a gwŷr a ddaeth yn amlwg ym mudiad addysg y gweithwyr, gan gynnwys Dan Harry, Mansel Grenfell, Gorseinon, a John Thomas, Aberdâr.

Gwnaeth oddeutu hanner y gwrthwynebwyr ddatgan ymlyniad wrth gorff neu drefniant crefyddol a gwleidyddol o ryw fath. Datganodd 352 o'r gwrthwynebwyr Cymreig ymlyniad crefyddol (ac os gynhwysir aelodau'r cwmni Cymreig a godwyd fel rhan o'r RAMC, gellir rhestru dros 500 a oedd yn aelodau o enwad neu eglwys benodol). O'r 352, roedd 155 yn aelodau o sect y Cristadelffiaid; yr ail fwyaf oedd y Crynwyr, gydag oddeutu 50; yna roedd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr gydag oddeutu 40 yr un; y Methodistiaid gydag oddeutu 20; a'r Plymouth Brethren gydag oddeutu 15.

Wrth ddisgrifio eu teyrngarwch i fudiad arbennig, datganodd 49 ymlyniad wrth yr ILP, a 31 wrth Gymdeithas y Cymod, gydag un yr un ar gyfer y British Socialist Party, yr SLP, ac un Sosialydd Cristnogol. Mae'n deg awgrymu, fodd bynnag, bod aelodaeth o'r ILP yn debygol o fod yn uwch nag a awgrymir gan yr ystadegau hyn.

Tueddai lleoliad y gwrthwynebwyr i adlewyrchu lleoliad poblogaeth Cymru – gyda thros hanner ym Morgannwg a sir Fynwy. Ond mae'r niferoedd yn adlewyrchu hefyd gryfder yr ILP yn lleol mewn ardaloedd penodol – Llansawel, Aberdâr, Merthyr, Cwm Rhymni, Cwm Tawe ac ardal dyffrynnoedd Aman a Lliw.

Beth oedd arwyddocâd y gwrthwynebwyr cydwybodol a'r gwrthwynebiad? I lawer wrth gwrs, bradwyr a chachgwn neu *shirkers* na haeddai barch na chydabyddiaeth oeddent. Ond cred eu cefnogwyr, gan gynnwys rhai a oedd o blaid y rhyfel ond yn erbyn gorfodaeth filwrol fel Aelod Seneddol dwyrain Caerfyrddin, W. Llewelyn Williams, oedd eu bod yn ferthron, dan erledigaeth ac yn dioddef sen a dirmyg. Er i Williams gefnogi'r rhyfel yn frwd o'r dechrau, fe'i gelyniaethwyd gan Lloyd George

â'i gefnogaeth i orfodaeth filwrol. Cymharodd ef y gwrthwynebydd i'r Piwritan John Penri, a ferthyrwyd oherwydd ei ffydd:

He knew of a young Welsh poet who was doing hard labour for the fourth time. As Recorder he had never given two years' hard labour to the most hardened criminal who had come before him. 'Are we living really in the twentieth century in the era of Christ?' he asked. 'Are people who profess to be Christians so lost to all sense of shame that these things are going to be allowed to go on? I protest against it myself, and I care nothing what the consequences may be.'⁶²

Adlewyrchai Williams hinsawdd fwy goddefgar yn y farn gyhoeddus ynglŷn â gwrthwynebwyr cydwybodol erbyn diwedd y rhyfel, ac fel bargyfreithiwr amlwg yn ne Cymru, dewisodd ymddangos ar ran gwrthwynebwyr cydwybodol ac aelodau gweithgar o'r mudiad gwrthryfel a erlidid yn y llysoedd. Ac i lawer yn y mudiad gwrthryfel, cyfnod o ferthyrddod a thair blynedd o erledigaeth a ddioddefwyd gan y gwrthwynebwyr cydwybodol. Disgrifia'r Parch. E. K. Jones hon fel pennod euraidd yn eu hanes:

y cyfarfodydd gweddi mewn cell cloedig; y sgwrs ysbrydol, yr adnodau wedi eu sgwennu ar wal o ddu; tristwch dros y milwr ardderchog a aberthwyd yn ofer; ymddygiad addfwyn ein dynion yn y Court Martial; dewrder yn wyneb salwch, a pan bo rheswm yn methu, parodrwydd llon i farw am y ffydd.⁶³

Mae'n creu darlun o hunanaberth a dioddefaint sydd yn cael ei adlewyrchu yn aml ym mywgraffiadau gwrthwynebwyr y cyfnod. Er enghraifft, mae T. W. Jones (Arglwydd Maelor yn ddiweddarach) yn disgrifio 'y profiad o'r chwerwder hwn a'r agwedd meudwyol i'm bywyd mewn canlyniad oedd y brofedigaeth fwyaf a'r waethaf a ddaeth i'm rhan erioed'.⁶⁴ Fel y cydnabu T. W. Jones, roedd llawer o'r chwerwder yn cael ei achosi gan golled perthynas yn y rhyfel ac 'yr oedd yn anodd i'r teuluoedd hynny ddeall fy safle innau'.⁶⁵

Bu 69 o wrthwynebwyr cydwybodol trwy Brydain farw o ganlyniad uniongyrchol i'w triniaeth, gan gynnwys pump o Gymru: Hal Beynon o Abertawe, George Dardis o Risca, Alfred Statton a John Evans o Gaerdydd, ac Albert Rudall o Gasnewydd. Arwyddocâd safiad y gwrthwynebwyr, yn ôl John Graham, oedd bod y wladwriaeth, am y tro cyntaf, wedi ei gorfodi i wynebu anufudd-dod sifil i'w gorchmynion ar lefel eang: 'flat disobedience, followed up by a weighty weapon of passive endurance'.⁶⁶

Pa mor effeithiol mewn gwirionedd fu'r ymgyrchu yn erbyn y rhyfel?

Credai'r gwrthwynebwr cydwybodol a'r newyddiadurwr, Percy Ogwen Jones, mai gwendid sylfaenol y mudiad oedd ei ddiffyg undod. Wrth fyfyrion ar y '[r]haff ac iddi amryw geinciau' datganodd mai 'Ceinciau cymysg ydoedd, ac fe gafodd lliaws o rai pur wahanol eu hunain yn gyd-garcharorion.' Serch hynny, credai, wrth edrych yn ôl, fod y ceinciau hyn wedi medru cytuno ar un agwedd yn benodol, sef y pwysigrwydd allweddol o beri gwrthdrawiad â deddf gwlad a'r wladwriaeth.⁶⁷

Cafodd ymgyrchu gwleidyddol y mudiad yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf effaith amlwg ar Brydain trwy gydol yr 1920au a'r 1930au, gan mai polisi tramor yr ILP o sicrhau cyflafareddu rhwng gwleidydd a'i gilydd a ddaeth yn bolisi tramor y Blaid Lafur yn gyfan gwbl. Ac effaith hynny oedd arafu militareiddio Prydain hyd yn oed wrth i'r Almaen gynyddu ei grym milwrol a'i huchelgais gwleidyddol drwy gydol yr 1930au. Cynyddodd y mudiad heddwch yng Nghymru yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel mawr, sefydlwyd y Deml Heddwch a'r Ganolfan Materion Ryngwladol yng Nghaerdydd yn 1938, a chafwyd cefnogaeth dros filiwn o bleidleiswyr o Gymru, sef 62.3 y cant, yn galw ar Brydain i aros yn aelod o Gynghair y Cenhedloedd yn 1935.⁶⁸

Lliwiwyd y farn gyhoeddus ar heddwch bron yn gyfan gwbl gan yr ymateb i'r rhyfel. Er i etholiad 'Khaki' 1918 danlinellu pa mor amhoblogaidd oedd y gwleidyddion hynny, tebyg i Niclas y Glais, a gysylltid gyda'r ymgyrchu yn erbyn y rhyfel, eto yn isetholiad Caerffili yn 1921, etholwyd Morgan Jones fel yr Aelod Seneddol cyntaf a fu'n wrthwynebydd cydwybodol. Etholwyd G. M. Ll. Davies yn Aelod Seneddol Prifysgol Cymru yn 1922, a newidiodd agweddau llawer tuag at wrthwynebwyr cydwybodol pan sylweddolwyd cyn lleied oedd y ddarpariaeth ar gyfer yr arwyr o filwyr a ddychwelodd o'r gad.

Erbyn yr Ail Ryfel Byd, effaith profiad yr awdurdodau o ddelio gyda'r gwrthwynebwyr cydwybodol oedd bod y rheolau yn ymwneud â nhw yn fwy rhyddfrydig a gwareiddiedig. Crëwyd tribiwnlysoedd mwy proffesiynol wedi eu llenwi gan unigolion gyda hyfforddiant cyfreithiol. Penderfynwyd hefyd y byddai'n dderbyniol cael mwy nag un sail dros gael eithriad o wasanaeth milwrol. Derbyniwyd yr egwyddor y dylid rhoi pob cyfle i wrthwynebwyr gael mentro o'r cychwyn cyntaf i wneud gwaith o bwysigrwydd cenedlaethol cyn belled nad oedd yn dod dan awdurdod y fyddin.⁶⁹

Ond efallai mai siom fwyaf y mudiad yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf oedd ei fethiant i effeithio o gwbl ar gwrs y rhyfel, ac i gyfuno'r elfennau amrywiol o wrthwynebiad i'r rhyfel er mwyn dwyn perswâd ar Brydain i atal yr ymladd.

Nodiadau

1. Dewi Eirug Davies, *Byddin y Brenin* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1988), tt. 45–65.
2. R. E. Dowse, *Left in the Centre: The Independent Labour Party 1893–1940* (Llundain: Longmans, 1966).
3. Noel Gibbard, *Tarian Tywi* (Caernarfon: Gwasg y Brython, 2011), t. 113.
4. 'Tarian y Gweithiwr', *Y Darian*, 28 Mehefin 1934, 2, dyfynnwyd yn Gibbard, *Tarian Tywi*, t. 117.
5. E. K. Jones, yn *Ffordd Tangnefedd* (Llandysul: Cymdeithas Heddwch yr Annibynwyr Cymraeg, 1943), t. 19.
6. W. Gethin Evans, *Quakers in Wales and the First World War* (cyhoeddwyd yn breifat, 2015).
7. J. Roose Williams, *T. E. Nicholas: Proffwyd Sosialaeth a Bardd Gwrthryfel* (Bangor: Y Blaid Gomiwnyddol, 1971).
8. *Y Tyst*, 30 Medi 1914.
9. Thomas Eirug Davies, *Cofiant Thomas Rees* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), t. 138.
10. Gerwyn Williams, *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1993), t. 179; *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 12.
11. Archif Genedlaethol, AIR1/560/16/15/5.
12. Coleg Prifysgol Bangor, *Papurau Bala-Bangor*, Mss238.
13. Coleg Prifysgol Bangor, *Papurau Bala-Bangor*, Mss238.
14. Gwynfor Evans, *George M. Ll. Davies: Pererin Heddwch* (Abertawe: Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, 1980).
15. Aled Eirug, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru', *Llafur*, 4, 4 (1987), 62; Jill Wallis, *Valiant for Peace: A History of the Fellowship of Reconciliation* (Llundain: The Fellowship of Reconciliation, 1991).
16. *Y Deyrnas*, Medi 1917, 5–8.
17. John Rae, *Conscience and Politics: the British Government and the Conscientious Objector to Military Service* (Rhydychen: Oxford University Press, 1970), tt. 82–3.
18. *Merthyr Pioneer*, 8 Awst 1914.
19. Percy Ogwen Jones, hunangofiant, trwy ddwylo ei fab, Geraint Percy Jones.
20. Albert Davies, *Wanderings*, hunangofiant heb ei gyhoeddi, d.d.
21. Cyril Parry, 'Gwynedd Politics, 1900–1920: The Rise of a Labour Party', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 6, 3 (1973).
22. Casgliad papurau'r Blaid Lafur Annibynnol, London School of Economics, cofnodion cangen Llundain o'r ILP, 3 Mawrth 1916.
23. Arthur Homer, *Incorrigible Rebel* (Llundain: McGibbon & Kee, 1960), t. 9.
24. Rae, *Conscience and Politics*, t. 224.
25. Sylwadau'r Golygydd, *Y Rhedegydd*, 25 Mawrth 1916.
26. *Y Dinesydd Cymreig*, 8 Mawrth 1916.

27. *Carmarthen Journal*, 7 Ebrill 1917; Robert Phillips, 'Gorfodaeth Milwrol yn sir Gaerfyrddin yn ystod y Rhyfel Mawr' (traethawd MPhil, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, 2007), 77.
28. Archif Genedlaethol, WO32/2051/3319.
29. Robin Barlow, 'Aspects of the Great War in Carmarthenshire' (traethawd PhD, Prifysgol Cymru, 2001), 138.
30. *Llanelly Mercury*, 14 Medi 1916.
31. *Llais Llafur*, 27 Mai 1916.
32. Rae, *Conscience and Politics*, t. 70.
33. Percy Ogwen Jones, *Ceinciau Cymysg*, sgwrs radio ar y BBC, 6 Tachwedd 1964.
34. *The No-Conscription Fellowship: a souvenir of its work during the years 1914–1919* (Llundain: NCF, d.d.), t. 9.
35. *Llais Llafur*, 19 Mehefin 1915.
36. *Llais Llafur*, 3 Mehefin 1916.
37. Papurau Catherine Marshall, Archif Swydd Cumbria, D/MAR/4/4.
38. Thomas C. Kennedy, *The Hound of Conscience: a History of the No-Conscription Fellowship, 1914–1919* (Fayetteville: University of Arkansas Press, 1981), tt. 294–301.
39. *North Wales Chronicle*, 3 Mawrth 1916; *Merthyr Pioneer*, 18 Mawrth 1916; *Merthyr Pioneer*, 11 Mawrth 1916.
40. Rae, *Conscience and Politics*, t. 132. Mae amcangyfrif Rae yn seiliedig yn bennaf ar ffynonellau papurau'r llywodraeth trwy'r Tribiwnlys Canolog a'r Bwrdd Llywodraeth Leol, yn ogystal â phapurau Pwyllgor Pelham. Nid yw'r ystadegau yn cynnwys y rhai a dderbyniodd wasanaeth yn yr RAMC nag yn Uned Ambiwylans y Crynwyr.
41. Ian Beckett a Keith Simpson, *A nation in arms: a social study of the British Army in the First World War* (Manceinion: Manchester University Press, 1985), t. 11.
42. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ymchwil heb ei chyhoeddi hyd yn hyn gan yr hanesydd Cyril Pearce.
43. Archif Uned Ambiwylans y Crynwyr, Cardiau Personél Uned Ambiwylans y Crynwyr, Ffeiliau ffilm 599–601, Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Llundain.
44. Papurau T. E. Harvey, Blwch 9, Adroddiad Pelham, Mai 1919.
45. Harold Watkins, *Life has kept me young* (Llundain: Watts, 1951), tt. 86–126; E. H. Griffiths, *Heddychwyr Mawr Cymru* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1967), t. 55.
46. Hansard, 5 HC 84, colofn 1758–9.
47. *The No-Conscription Fellowship*, t. 5.
48. Bas data gan Cyril Pearce, *Gwrthwynebwyr i'r Rhyfel 1914–18* (heb ei gyhoeddi, 2015).
49. Ithel Davies, *Bwrlwm Byw* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), t. 8.
50. Davies, *Bwrlwm Byw*, t. 61.
51. *Merthyr Pioneer*, 11 Mawrth 1916.
52. Bas data gan Cyril Pearce.

53. Davies, *Bwrktwm Byw*, tt. 72–3.
54. 'Conscientious Objectors at Rhyl', *Merthyr Pioneer*, 30 Medi 1916, 3.
55. Rae, *Conscience and Politics*, t. 88.
56. Percy Ogwen Jones, hunangofiant.
57. Adroddiad terfynol Pwyllgor Pelham, t. 126, yn T. E. Harvey, Blwch 11, Llyfrgell Tŷ'r Crynwyr, Llundain.
58. 'Profiad o Garchar', *Y Dinesydd Cymreig*, 5 Mai 1918, 2.
59. 'Casgliad papurau Catherine Marshall', Adroddiad W. J. Roberts i bwyllgor canolog yr NCF ar amgylchiadau byw gwersylloedd Llannon a Llanddeusant, 30, 31 Mawrth 1917.
60. Rhagair gan Cynan yn R. R. Williams, *Breuddwyd Cymro mewn dillad benthyg* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1964), tt. ix–x. Gweler y dyfyniad llawn ym mhennod Gerwyn Wiliams yn y gyfrol hon.
61. Williams, *Breuddwyd Cymro mewn dillad benthyg*, tt. 54–5.
62. Llewelyn Williams, *Llanelly Star*, 12 Ionawr 1918.
63. E. K. Jones, *Y Deyrnas*, Tachwedd 1919.
64. Arglwydd Maelor, *Fel Hyn y Bu* (Dinbych: Gwasg Gee, 1970), t. 88.
65. Maelor, *Fel Hyn y Bu*, t. 88.
66. John Graham, *Conscription and Conscience: a history 1916–1919* (Llundain: Allen & Unwin, 1922), t. 343.
67. Jones, *Ceinciau Cymysg*.
68. Goronwy J. Jones, *Wales and the Quest for Peace* (Caerdydd: University of Wales Press, 1969), t. 140.
69. Rae, *Conscience and Politics*, tt. 242–5.